**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

4 Rhagfyr 2019

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Hydref ac adroddiad y pwyllgor 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig Llywodraeth Cymru: adfer bioamrywiaeth'.

Gwyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yw un o'n heriau mwyaf, ond mae'n her sy'n rhaid ymateb iddi am amryw byd o resymau. Mae gwella bioamrywiaeth law yn llaw â pharhau i gynhyrchu bwyd o safon uchel a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ymhlith fy mhrif flaenoriaethau ar gyfer llunio polisi rheoli tir Cymru at y dyfodol.

Roedd ymgynghoriad *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* yn esbonio bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sefydlu fframwaith deddfu a pholisi pwysig, yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd, a ddefnyddir gennym i ddatblygu ein cynigion ar gyfer polisi rheoli tir yn y dyfodol yng Nghymru. Yn y cyd-destun deddfwriaethol hwn, bydd ein cynigion yn cyfrannu at gyflawni amcanion llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, yn yr achos penodol hwn, yn gwneud cyfraniad pwysig at "Cymru gydnerth" trwy gefnogi canlyniadau sy'n cynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol. Bydd y polisi arfaethedig yn bwysig hefyd wrth gyflawni ymrwymiadau Gweinidogion Cymru dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wrth geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth ein gwlad.

Mae ymgynghoriad *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* newydd ddod i ben. Rydym wrthi'n ystyried yr ymatebion ac yn cynnal rhaglen gynllunio ar y cyd â ffermwyr a rhanddeiliaid er mwyn archwilio agweddau ymarferol y cynigion ymhellach. Hefyd, rydym yn wynebu ansicrwydd parhaus gan Lywodraeth y DU o ran faint o gyllid fydd yn dychwelyd i Gymru pe bai'r DU yn gadael yr UE. O'r herwydd, mae'n ddyddiau cynnar o hyd o ran cynllunio cynllun at y dyfodol a'r dull cyflwyno cysylltiedig, ac nid oes modd rhoi ymateb terfynol i lawer o'ch argymhellion ar hyn o bryd. Felly, rydym yn derbyn llawer o'r argymhellion mewn egwyddor (yn hytrach na'n bendant) wrth ddisgwyl i'r cynigion polisi gael eu datblygu a'u cwblhau'n llawn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn egluro un agwedd ar eich adroddiad. Er fy mod yn cytuno fod ein huchelgeisiau ar gyfer gwasanaeth cynghori ar gyfer y dyfodol yn uchelgeisiol, rwy'n credu y bydd darparu'r lefel gywir o gymorth a chyngor yn hanfodol er mwyn helpu ein ffermwyr i addasu i'r newidiadau a gynhigiwn. Rydych wedi cyfeirio at "ymrwymiad Llywodraeth Cymru na fydd yn rhaid talu costau gwasanaethau cynghori o'r arian sydd ar gael ar gyfer cymorth ffermio" (tudalen 31). Fel y soniais eisoes, does dim eglurder o ran dyraniad cyllideb y dyfodol gan Lywodraeth y DU ac nid oes dull darparu manwl wedi'i gynllunio.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig am yr adroddiad. Mae fy ymatebion i'r argymhellion unigol i'w gweld isod.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

**Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adfer bioamrywiaeth yn flaenoriaeth allweddol yn ei Chynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig.

**Ymateb: Derbyn**

Rhaid i'r broses o gynnal a chadw ecosystemau trwy greu rhwydweithiau ecolegol cadarn a chydnerth fod yn ganolog i bolisi rheoli tir y dyfodol os ydym i gyflawni'r lefel o weithredu sydd ei hangen i gynnal ac adfer natur ledled Cymru. Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yn cael ei ddatblygu ar sail cysyniad Rheoli Tir Cynaliadwy ac yn unol â'r fframwaith deddfu a pholisi a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn yr un modd, cynigir bod y cynllun yn cefnogi canlyniadau i gynnal a gwella bioamrywiaeth, a datblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth.

Dylai cam nesa'r gwaith ganolbwyntio ar fanylion sut rydym am gyflawni hyn, ac rydym yn bwriadu gwneud hyn trwy ddatblygu ein cynigion sydd yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir.*

**Goblygiadau ariannol** – Ni allaf bennu'r goblygiadau ariannol nes bod y cynllun arfaethedig wedi'i gynllunio, model gweithredol wedi'i lunio a chyllideb ar gyfer y dyfodol wedi'i sicrhau gan Lywodraeth y DU.

**Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai cynllun arfaethedig Llywodraeth Cymru gynnwys canlyniadau sy'n cael eu llywio gan y data a'r dystiolaeth ddiweddaraf ar fioamrywiaeth a dylai hefyd ganolbwyntio ar rywogaethau, cynefinoedd a thirwedd.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Fel y nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor, bydd angen inni ystyried gweithredu ar y raddfa gywir er mwyn sicrhau'r canlyniadau amrywiol yr hoffem eu cyflawni.

Rydym yn cynnig defnyddio tystiolaeth gan gynnwys o Raglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP), Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), y Datganiadau Ardal a gynhyrchir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a ffynonellau eraill fel gwerthusiadau o gynlluniau blaenorol ac enghreifftiau o gynlluniau eraill o'r tu allan i Gymru.

**Goblygiadau ariannol** – Ni allaf bennu'r goblygiadau ariannol nes bod y cynllun arfaethedig wedi'i gynllunio, model gweithredol wedi'i lunio a chyllideb ar gyfer y dyfodol wedi'i sicrhau gan Lywodraeth y DU.

**Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gweithio ochr yn ochr â pholisïau a mentrau eraill sydd â'r nod o adfer bioamrywiaeth.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Ni allwn roi'r eglurder hwn ar hyn o bryd gan ei bod hi'n rhy gynnar yn y broses gynllunio. Fodd bynnag, byddwn yn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â blaenoriaethau a chynigion polisi eraill fel y Goedwig Genedlaethol newydd, a chamau Cynllun Adfer Natur Cymru sy'n cael ei adnewyddu ar hyn o bryd.

**Goblygiadau ariannol** - Ni allaf bennu'r goblygiadau ariannol nes bod y cynllun arfaethedig wedi'i gynllunio, model gweithredol wedi'i lunio a chyllideb ar gyfer y dyfodol wedi'i sicrhau gan Lywodraeth y DU.

**Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu monitro ac asesu effaith y cynllun mewn perthynas â bioamrywiaeth.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Bydd proses fonitro ac asesu effaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig ar fioamrywiaeth yn cael ei datblygu fel rhan o'r broses fanwl o gynllunio'r cynllun. Gan fod y broses yn dal i fynd rhagddi, ni allaf ddarparu esboniad manylach ar hyn o bryd.

**Goblygiadau ariannol** – Ni allaf bennu'r goblygiadau ariannol nes bod y cynllun arfaethedig wedi'i gynllunio, model gweithredol wedi'i lunio a chyllideb ar gyfer y dyfodol wedi'i sicrhau gan Lywodraeth y DU.

**Argymhelliad 5**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad o'r adnoddau, gan gynnwys staff, y bydd eu hangen i ddarparu ei dull arfaethedig o ran gwasanaethau cynghori. Dylai'r asesiad hwn gynnwys rhagamcanion ar gyfer pum mlynedd gyntaf y cynllun.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd asesiad o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r dull arfaethedig o ran gwasanaethau cynghori yn rhan o'r broses gynllunio fanwl. Hoffwn archwilio dulliau cyfathrebu a chyfleoedd digidol er mwyn darparu cyngor a chymorth yn y ffordd fwyaf effeithlon ond ystyrlon bosibl. Gan fod y broses yn dal i fynd rhagddi, ni allaf ddarparu asesiad manylach ar hyn o bryd.

**Goblygiadau ariannol** – Ni allaf bennu'r goblygiadau ariannol nes bod y cynllun arfaethedig wedi'i gynllunio, model gweithredol wedi'i lunio a chyllideb ar gyfer y dyfodol wedi'i sicrhau gan Lywodraeth y DU.

**Argymhelliad 6**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu sicrhau bod digon o gynghorwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ar gael erbyn i'r cynllun arfaethedig gael ei lansio. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw'n disgwyl i unrhyw sefydliad presennol ddarparu'r gwasanaeth cynghori.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Newydd ddod i ben mae'r ymgynghoriad, ac mae angen inni bwyso a mesur yr ymatebion yn ofalus fel rhan o'r broses gynllunio arfaethedig ar gyfer y cynllun cyn dechrau cynnig dulliau darparu.

**Goblygiadau ariannol** – ni allaf bennu'r goblygiadau ariannol nes bod y cynllun arfaethedig wedi'i gynllunio, model gweithredol wedi'i lunio a chyllideb ar gyfer y dyfodol wedi'i sicrhau gan Lywodraeth y DU.

**Argymhelliad 7**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn sicrhau bod defnyddwyr ei chynllun arfaethedig yn cael mynediad priodol at gyfleoedd hyfforddiant a datblygu sgiliau. Dylai hefyd nodi ei amcangyfrifon o'r costau yn sgil hyfforddiant o'r fath ac egluro sut y byddant yn cael eu talu.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Elfen allweddol o ddull seiliedig ar ganlyniadau lle mae ffermwyr yn cael eu grymuso i wneud mwy o'u penderfyniadau rheoli eu hunain, yw'r sgiliau cywir i ddeall a chyflawni'r canlyniadau amrywiol rydyn ni'n ceisio'u sicrhau.

Rydym wedi cynnig y bydd mynediad i hyfforddiant a sgiliau'n elfen bwysig o'r cymorth hwn. Bydd angen i ni ystyried y ffyrdd gorau o ddarparu hyn – trwy ffermydd arddangos, rhwydweithiau trosglwyddo gwybodaeth rhwng cymheiriaid, neu trwy brosesau mwy ffurfiol. Fodd bynnag, gan fod y broses o gynllunio'r cynllun arfaethedig yn dal i fynd rhagddi, ni allaf ddarparu gwybodaeth fanwl nac amcangyfrifon o'r costau ar hyn o bryd.

**Goblygiadau ariannol** – Ni allaf bennu'r goblygiadau ariannol nes bod y cynllun arfaethedig wedi'i gynllunio, model gweithredol wedi'i lunio a chyllideb ar gyfer y dyfodol wedi'i sicrhau gan Lywodraeth y DU.

**Argymhelliad 8**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion am sut y bydd yn "cadw ac egluro'r trefniadau presennol", yn y tymor byr, mewn perthynas â fframwaith rheoleiddio. Dylai hyn gynnwys esboniad o sut y bydd ei dull arfaethedig yn adfer bioamrywiaeth.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu parhau â'r trefniadau presennol tan y daw'r fframwaith rheoleiddiol newydd i rym drwy'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) arfaethedig. Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r safonau na'r broses orfodi gyfredol yn gwanhau wrth bontio o'r fframweithiau rheoleiddio presennol i rai'r dyfodol. Bydd llawer iawn o'r contractau Cynllun Datblygu Gwledig presennol, sydd â'r nod o fynd i'r afael ag amcanion bioamrywiaeth penodol, yn parhau hefyd.

Wrth i'r fframwaith rheoleiddio newydd gael ei ddatblygu, rydym yn bwriadu amlinellu'r gofynion rheoleiddio presennol yn ddigon clir mewn sawl maes, gan gynnwys bioamrywiaeth. Mae hyn yn golygu y bydd ffermwyr yn gwybod yn union pa gamau sydd angen iddynt eu cymryd er mwyn bodloni'r gyfraith ar faterion bioamrywiaeth.

Bydd unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael eu llywio gan ddyletswyddau ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Rydym yn bwriadu ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod mesurau'n cael eu cynnwys mewn cynigion ar gyfer llinell sylfaen rheoleiddio yn y dyfodol, sydd â'r nod o gynnal a gwella'r amgylchedd.

**Goblygiadau ariannol** – Ni allaf bennu'r goblygiadau ariannol nes bod y cynllun arfaethedig wedi'i gynllunio, model gweithredol wedi'i lunio a chyllideb ar gyfer y dyfodol wedi'i sicrhau gan Lywodraeth y DU.

**Argymhelliad 9**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yn gwobrwyo ffermwyr sydd eisoes yn dilyn arferion da.

**Ymateb: Derbyn**

Lle mae arferion da cyfredol yn sicrhau'r canlyniadau yr ydym yn chwilio amdanynt, mae'n bwysig ein bod ni'n cydnabod a gwobrwyo hyn.

Y tu hwnt i hyn, rydym yn bwriadu parhau i chwilio am gyfleoedd pellach y tu hwnt i arferion rheoli tir cyfredol er mwyn cyflawni'r canlyniadau llesol ychwanegol lle bo'n ymarferol,

Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod safonau 'arferion da cyfredol' yn cael eu diffinio'n glir.

**Goblygiadau ariannol** – Ni allaf bennu'r goblygiadau ariannol nes bod y cynllun arfaethedig wedi'i gynllunio, model gweithredol wedi'i lunio a chyllideb ar gyfer y dyfodol wedi'i sicrhau gan Lywodraeth y DU.

**Argymhelliad 10**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Rhaid i Lywodraeth Cymru daro cydbwysedd rhwng sicrhau bod y Cynllun yn hygyrch a hefyd yn ddigon uchelgeisiol i adfer bioamrywiaeth. Dylid penderfynu ble i bennu'r llinell sylfaen reoleiddio ar sail tystiolaeth.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd penderfyniadau am linell sylfaen rheoleiddio ar gyfer y cynllun arfaethedig yn seiliedig ar werthusiad trylwyr o'r dystiolaeth. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid o bob math er mwyn llywio'n penderfyniadau gan gynnwys rhai sy'n arbenigo mewn cadwraeth natur a rheolwyr tir sydd â phrofiad a gwybodaeth am eu tir. Dim ond os yw'r dystiolaeth yn dangos eu bod yn cyfrannu at y canlyniadau yr hoffem eu gweld fel rhan o'r Cynllun arfaethedig yr ydym yn bwriadu ariannu gweithgareddau. Rydym yn cynnig bod yn rhaid i'r gweithgareddau hyn a gyllidir gyflawni uwchlaw'r llinell sylfaen reoliadol.

Nod datblygu'r cynllun arfaethedig fydd cydbwyso buddiannau ffermwyr a rheolwyr tir â buddiannau'r cyhoedd ehangach yng Nghymru wrth ddiogelu ein hadnoddau naturiol. Fel y nodir yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, byddwn yn cael ein llywio gan egwyddorion a rhwymedigaethau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol -** Hyd nes y bydd y cynllun arfaethedig wedi'i gynllunio a hyd nes y bydd unrhyw newidiadau i linellau Sylfaen rheoliadol wedi'u cadarnhau ni allaf bennu'r goblygiadau ariannol.

**Argymhelliad 11**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei hymateb i adolygiad yr Arglwydd Bew o'r drefn o ran dyrannu cymorth ffermio yn y DU hyd at 2020.

**Ymateb: Derbyn**

Mae adolygiad Bew o drefn dyrannu cymorth ffermio o fewn y DU wedi dod i ben bellach, a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar 6 Medi. Roedd yn cynnwys cyfraniadau cyhoeddedig gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill o Gymru. Gan mai adroddiad wedi'i gomisiynu gan ac ar gyfer Llywodraeth y DU oedd hwn (sydd hefyd wedi ymateb iddo), ni fydd Llywodraeth Cymru'n ymateb yn ffurfiol. Fodd bynnag, rwy'n croesawu'r argymhelliad a'r ymrwymiadau dilynol i roi cyllid ychwanegol i amaethyddiaeth yng Nghymru.

Gan fod hwn yn bwnc hollbwysig i Gymru, roedd yn hanfodol i'r Arglwydd Bew ystyried safbwyntiau Cymru gydol yr adolygiad. Daeth y panel adolygu i Gymru droeon i gwrdd â rhanddeiliaid yma.

**Goblygiadau ariannol** – Prif argymhelliad yr Arglwydd Bew oedd dyrannu swm ychwanegol o €6.12m i Gymru a €60.42m i'r Alban dros y cyfnod 2020-2022. Cyflwynodd Llywodraeth y DU ei hymateb i Adroddiad Bew ar yr un diwrnod, yn cytuno i'r argymhellion gan gynnwys €6.12m ychwanegol i amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae swyddogion wrthi'n gweithio gyda Llywodraeth y DU i egluro sut a phryd yn union fydd Cymru'n derbyn yr arian.

**Argymhelliad 12**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y trafodaethau rhynglywodraethol diweddaraf ynghylch dod o hyd i fecanwaith cynaliadwy i ddyrannu cymorth ffermio ar ôl 2020.

**Ymateb: Derbyn**

Ar hyn o bryd, mae cryn bryder o hyd ynghylch cyfanswm y gyllideb fydd ar gael ar gyfer cymorth ffermio i Gymru yn y dyfodol. Tra bod Llywodraeth bresennol y DU wedi rhoi sicrwydd lefel uchel i ddiogelu'r arian cymorth ffermio tan 2022, does dim eglurder am naill ai'r swm wedi hynny neu sut y caiff ei ddyrannu rhwng pedair gweinyddiaeth y DU. Fodd bynnag, efallai y bydd canlyniadau'r etholiad cyffredinol arfaethedig yn effeithio ar yr addewidion a gafwyd hyd yma.

Byddwn yn adrodd yn ôl unwaith y cawn fwy o eglurder gan Lywodraeth y DU.

**Goblygiadau ariannol** – mae Gweinidogion Cymru'n glir na ddylai gadael yr UE olygu bod Cymru'n cael llai o gyllid, a bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am wybodaeth gliriach ar gyllid a'r mecanweithiau cyllido.